OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 149 (Cy.19)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*29 Ionawr 2003*
Yn dod i rym - -	*10 Chwefror 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 16BC(2) a (3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a pharagraffau 6(1), a (2) o Atodlen 5B iddi(**1**) sy'n arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(**2**) mewn perthynas â Chymru, yn gwneud y Rheoliadau canlynol —

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 10 Chwefror 2003.

Dehongli

2. Bydd y geiriau a'r ymadroddion canlynol yn dwyn yr ystyron canlynol —

mae "aelod" ("*member*") yn cynnwys cadeirydd ac is-gadeirydd, aelodau sy'n swyddogion ac nad ydynt yn swyddogion, aelodau cyswllt ac aelodau cyfetholedig Bwrdd;

ystyr "aelod awdurdod lleol" ("*local authority member*") yw aelod o Fwrdd sy'n cael ei enwebu gan yr awdurdod lleol ar gyfer ardal y Bwrdd hwnnw;

ystyr "aelodau cyntaf" ("*first members*") yw'r personau hynny a benodir gyntaf fel aelodau'r Bwrdd yn union ar ôl iddo gael ei sefydlu;

ystyr "aelod cysgodol" ("*shadow member*") yw person a enwir i fod yn un o aelodau cyntaf Bwrdd ar ddyddiad dod i rym y Rheoliadau hyn;

ystyr "aelod nad yw'n swyddog" ("*non-officer member*") yw aelod o Fwrdd nad yw'n dal unrhyw swydd a nodir yn rheoliad 3(3);

ystyr "aelod sy'n swyddog" ("*officer member*") yw aelod sy'n dal unrhyw swydd a nodir yn rheoliad 3(3);

(**1**) 1977 p.49.
(**2**) Mae swyddogaethau o dan adran 16BC ac Atodlen 5B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 wedi eu breinio yn uniongyrchol yn y Cynulliad.

ystyr "ardal y Bwrdd" ("*Board's area*") yw'r ardal y mae Bwrdd yn cael ei sefydlu ar ei chyfer fel y nodir yng Ngorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (**3**), fel y gellir amrywio ardal o'r fath o bryd i'w gilydd;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor neu gyngor bwrdeistref yng Nghymru;

ystyr "Bwrdd" ("*Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol;

ystyr "corff gwasanaeth iechyd" ("*health service body*") yw Awdurdod Iechyd, Awdurdod Iechyd Arbennig, Awdurdod Iechyd Strategol, Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiredolaeth GIG neu Ymddiredolaeth Gofal Sylfaenol;

ystyr "Cynulliad" ("*Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Cyngor Iechyd Cymuned" ("*Community Health Council*") yw Cyngor Iechyd Cymuned a sefydlwyd yng Nghymru yn unol ag adran 20 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

ystyr "Deddf 1977" ("*1977 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

ystyr "gofalwr" ("*carer*") yw person 16 oed neu drosodd sy'n darparu neu sydd wedi darparu cyfran sylweddol o ofal a hynny'n rheolaidd i berson arall, heblaw drwy rinwedd contract cyflogaeth neu gontract arall gydag unrhyw berson, neu fel gwirfoddolwr i gorff gwirfoddol;

bydd i "proffesiwn gofal iechyd" ("*health care profession*") yr un ystyr ag a roddir iddo yn adran 25(12) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002;

ystyr "ymarferydd meddygol cyffredinol" ("*general medical practitioner*") yw ymarferydd meddygol cyffredinol sy'n darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol o dan Ran II o Ddeddf 1977 neu wasanaethau meddygol personol mewn cysylltiad â chynllun peilot o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997(**4**);

RHAN I

Aelodaeth

Aelodaeth Byrddau Iechyd Lleol

3.—(1) Bydd Bwrdd wedi ei ffurfio o'r aelodau a ddisgrifir yn y Rheoliadau hyn.

(2) Yr aelodau sy'n swyddogion fydd —

(a) y prif swyddog;

(b) y swyddog meddygol;

(c) y swyddog cyllid; ac

(ch) y swyddog nyrs.

(3) Yr aelodau nad ydynt yn swyddogion fydd —

(a) y cadeirydd;

(b) yr is-gadeirydd;

(c) hyd at bedwar aelod awdurdod lleol, y mae'n rhaid i o leiaf un ohonynt fod yn aelod etholedig o gyngor yr awdurdod lleol hwnnw, a rhaid i un ohonynt fod yn uwch-swyddog gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol hwnw;

(ch) arbenigydd iechyd y cyhoedd;

(**3**) O.S. 2003 Rhif 148. Cy. 18.
(**4**) 1997 p.46.

(d) hyd at dri aelod ymarferydd meddygol cyffredinol;

(dd) aelod fferyllydd;

(e) aelod ymarferydd deintyddol;

(f) aelod optometrydd;

(ff) aelod nyrsio, bydwreigiaeth neu ymwelydd iechyd;

(g) aelod therapi;

(ng) hyd at ddau aelod o'r sector gwirfoddol;

(h) hyd at ddau aelod lleyg o'r gymuned, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn ofalwr; a

(i) pedwar aelod cyswllt.

(4) Yn ychwanegol at at yr aelodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) uchod, caiff y Bwrdd o bryd i'w gilydd benodi cyfryw aelodau cyfetholedig sydd yn ei farn ef yn angenrheidiol neu'n briodol er mwyn i'r Bwrdd gyflawni ei swyddogaethau.

Penodi aelodau Byrddau Iechyd Lleol

4.—(1) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i benodiad yr aelodau cyntaf.

(2) Bydd y Cynulliad yn penodi'r cadeirydd ac, os yw o'r farn ei fod yn briodol, is-gadeirydd Bwrdd.

(3) Penodir yr holl aelodau (heblaw'r cadeirydd, is-gadeirydd a'r aelodau cyfetholedig) gan y Bwrdd yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad.

(4) Penodir aelodau cyfetholedig gan y Bwrdd, a fydd yn rhoi sylw i unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan y Cynulliad o dro i dro ynghylch penodiadau.

(5) Rhaid i'r person neu'r personau sy'n gyfrifol am wneud unrhyw bendodiad o dan baragraff (3) sicrhau, cyn iddynt wneud unrhyw benodiad o'r fath, y cydymffurfir â darpariaethau Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn (i'r graddau y maent yn gymwys i'r penodiad), a rhaid iddynt barchu unrhyw gyfarwyddyd a ddyroddir gan y Cynulliad o bryd i'w gilydd ynghylch penodiadau.

Trefniadau trosiannol ar gyfer penodi aelodau cyntaf Bwrdd Iechyd Lleol

5.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i benodiad aelodau cyntaf Bwrdd yn unig.

(2) Rhaid i gadeirydd cyntaf Bwrdd (ac is-gadeirydd os oes un i gael ei benodi gan y Cynulliad) fod y person neu bersonau a ddynodir gan y Cynulliad i ddal swydd neu swyddi o'r fath ar y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

(3) Rhaid i brif swyddog cyntaf Bwrdd fod y person a ddynodwyd gan y Cynulliad i ddal swydd o'r fath ar y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

(4) Rhaid i aelodau cyntaf Bwrdd (heblaw am y cadeirydd, is-gadeirydd neu brif swyddog) fod y personau hynny a ddynodir gan y Cynulliad i ddal y swyddi o aelodau ar y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

(5) Os oes unrhyw swydd wag (heblaw mewn perthynas â swydd cadeirydd neu is-gadeirydd) yn aelodaeth y Bwrdd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, caiff y Bwrdd benodi aelodau i unrhyw swydd wag o'r fath yn unol â darpariaethau rheoliad 4.

Gofynion i fod yn gymwys i fod yn aelod o Fwrdd Iechyd Lleol

6. Rhaid i unrhyw berson sy'n gwneud cais i fod yn aelod o Fwrdd fodloni'r gofynion ar gyfer bod yn gymwys a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn cyn y gall person o'r fath gael ei benodi'n aelod.

Cyfnod penodiad aelodau cyfetholedig

7. Ni chaiff aelodau cyfetholedig eu penodi am gyfnod sy'n hwy na blwyddyn a ni chânt eu hailbenodi pan ddaw eu tymor i ben oni bai fod y Bwrdd yn penderfynu bod ailbenodiad o'r fath yn angenrheidiol neu'n hwylus i'r Bwrdd gyflawni ei swyddogaethau.

Terfynu penodiad ac atal dros dro aelodau sy'n swyddogion

8.—(1) Os bydd y cadeirydd ac aelodau nad ydynt yn swyddogion yn penderfynu nad yw o fudd i'r Bwrdd i berson sy'n aelod fel swyddog barhau i ddal ei swydd fel aelod o'r fath, gallant derfynu cyfnod dal swydd y person hwnnw ar unwaith.

(2) Os bydd yr aelodau sy'n swyddogion (heblaw aelod sy'n swyddog ac sy'n destun hysbysiad i'r cadeirydd o dan y paragraff hwn) yn hysbysu'r cadeirydd eu bod o'r farn na ddylai person sy'n aelod fel swyddog barhau i ddal swydd fel aelod o'r fath, gall y cadeirydd ac aelodau nad ydynt yn swyddogion y Bwrdd derfynu cyfnod dal swydd y person hwnnw os ydynt o'r farn nad yw o fudd i'r Bwrdd i'r person hwnnw barhau i ddal y swydd.

(3) Os bydd y cadeirydd ac aelodau nad ydynt yn swyddogion o dan baragraff (2) yn terfynu cyfnod dal swydd aelod sy'n swyddog neu'n penderfynu y dylai person o'r fath barhau i ddal swydd, rhaid iddynt hysbysu'r Cynulliad yn ddiymdroi yn ysgrifenedig, gan ddatgan y rhesymau am eu penderfyniad.

(4) Pan fo person wedi cael ei benodi i fod yn aelod sy'n swyddog —

(a) os daw'n hysbys i'r cadeirydd a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion bod y person bellach yn anghymwys i gael ei benodi o dan Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, rhaid iddynt hysbysu'r person a'r Cynulliad yn ysgrifenedig a hynny'n ddiymdroi am anghymwyster o'r fath; neu

(b) os daw'n hysbys i'r cadeirydd a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion bod y person yn anghymwys felly ar adeg ei benodi, rhaid iddynt hysbysu'r person a'r Cynulliad yn ysgrifenedig a hynny'n ddiymdroi o'u barn na chafodd y person ei benodi yn briodol;

ac, yn dilyn hysbysiad o'r fath, gall y cadeirydd a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion derfynu cyfnod dal swydd y person hwnnw a bydd y person hwnnw yn peidio â gweithredu fel aelod sy'n swyddog.

(5) Os yw'n ymddangos i'r cadeirydd a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion bod aelod sy'n swyddog wedi methu â chydymffurfio â rheoliad 15, gallant derfynu cyfnod dal swydd y person hwnnw a bydd y person hwnnw yn peidio â bod yn aelod sy'n swyddog.

(6) Os yw person sy'n aelod sy'n swyddog wedi methu â mynychu cyfarfod o'r Bwrdd am gyfnod o dri mis, rhaid i'r cadeirydd a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion derfynu cyfnod dal swydd y person hwnnw oni bai eu bod yn fodlon —

(a) mai achos rhesymol oedd y rheswm dros yr absenoldeb; a

(b) y bydd modd i'r person fynychu cyfarfodydd o'r fath o fewn cyfnod o'r fath sydd yn rhesymol ym marn y cadeirydd a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion.

(7) Cyn iddynt wneud eu penderfyniad terfynol ynghylch terfynu cyfnod dal swydd aelod sy'n swyddog, gall y cadeirydd a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion, os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol i wneud hynny, atal dros dro cyfnod dal swydd aelod sy'n swyddog am gyfnod o'r fath sydd yn eu barn hwy yn rhesymol cyn eu bod yn gwneud eu penderfyniad terfynol.

(8) Os bydd y cadeirydd a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion yn penderfynu atal dros dro gyfnod dal swydd aelod sy'n swyddog, rhaid iddynt hysbysu'r Cynulliad yn ysgrifnedneig a hynny'n ddiymdroi, gan ddatgan y rhesymau am eu pednerfyniad.

(9) Rhaid i aelod sy'n swyddog y mae ei gyfnod dal swydd yn cael ei atal dros dro gael ei atal dros dro hefyd rhag cyflawni swyddogaethau aelod, a bydd aelod sy'n swyddog y mae ei gyfnod dal swydd yn cael ei derfynu yn peidio â bod yn aelod.

Terfynu penodiad ac atal dros dro aelodau nad ydynt yn swyddogion

9.—(1) Os bydd y Bwrdd yn penderfynu —

(a) nad yw o fudd i'r gwasanaeth iechyd yn yr ardal y mae'r Bwrdd yn gweithredu ynddi; neu

(b) nad yw'n gydnaws â rheolaeth dda y Bwrdd,

i berson a benodwyd i ddal swydd fel aelod nad yw'n swyddog o'r Bwrdd hwnnw barhau i ddal y swydd honno, gall y Bwrdd, gyda chaniatâd y Cynulliad, derfynu aelodaeth y person hwn yn ddiymdroi.

(2) Pan fo person wedi'i benodi yn aelod nad yw'n swyddog —

(a) os daw'n hysbys i'r Bwrdd bod y person bellach yn anghymwys i gael ei benodi o dan Ran 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, rhaid i'r Bwrdd hysbysu'r person hwnnw a'r Cynulliad yn ddiymdroi a hynny'n ysgrifenedig o anghymwysedd o'r fath, neu

(b) os daw'n hysbys i'r Bwrdd bod y person yn anghymwys felly ar adeg ei benodi, rhaid i'r Bwrdd yn ddiymdroi hysbysu'r person a'r Cynulliad yn ysgrifenedig am yr anghymwysiad hwnnw,

caiff y Bwrdd, gyda chydsyniad blaenorol y Cynulliad, derfynu aelodaeth y person hwnnw yn ddiymdroi a bydd y person hwnnw yn peidio â gweithredu fel y cadeirydd, is-gadeirydd neu aelod nad yw'n swyddog arall.

(3) Os yw'n ymddangos i'r Bwrdd bod aelod nad yw'n swyddog wedi methu â chydymffurfio â rheoliad 15, gall y Bwrdd, gyda chaniatâd y Cynulliad, derfynu aelodaeth y person hwnnw yn ddiymdroi.

(4) Os yw aelod nad yw'n swyddog wedi methu â mynychu cyfarfod o'r Bwrdd am gyfnod o dri mis, rhaid i'r Bwrdd derfynu aelodaeth y person hwnnw oni bai ei fod yn fodlon bod —

(a) yr absenoldeb o ganlyniad i achos rhesymol; a

(b) y bydd modd i'r person fynychu cyfarfodydd o'r fath o fewn cyfnod o'r fath sydd ym marn y Bwrdd yn rhesymol.

(5) Cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch terfynu aelodaeth unrhyw aelod nad yw'n swyddog gall y Bwrdd, os yw o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny, atal dros dro aelodaeth aelod nad yw'n swyddog am gyfnod sydd yn ei farn ef yn rhesymol cyn iddo wneud ei benderfyniad terfynol.

(6) Os bydd y Bwrdd yn penderfynu atal dros dro aelodaeth aelod nad yw'n swyddog, rhaid iddo hysbysu'r Cynulliad yn ysgrifenedig yn ddiymdroi gan ddatgan ei resymau am ei benderfyniad.

(7) Bydd aelod nad yw'n swyddog y mae ei aelodaeth yn cael ei atal dros dro hefyd yn cael ei atal dros dro rhag cyflawni swyddogaethau aelod.

RHAN II

Trafodion a threfniadau gweinyddol Byrddau

Penodi is-gadeirydd

10.—(1) Os nad oes is-gadeirydd wedi cael ei benodi gan y Cynulliad, yna yn ddarostyngedig i baragraff (2), gall y cadeirydd ac aelodau nad ydynt yn swyddogion o'r Bwrdd benodi un o'u plith, nad yw'n aelod sy'n swyddog o'r Bwrdd, i fod yn is-gadeirydd am gyfnod, nad yw'n hwy na gweddill ei dymor fel aelod o'r Bwrdd, ag y gallant ei bennu.

(2) Gall unrhyw aelod a benodwyd felly ymddiswyddo ar unrhyw adeg o'i swydd fel is-gadeirydd drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r cadeirydd.